

## **Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar Radd-Brentisiaethau**

Mae gradd-brentisiaethau yn mynd i fod yn elfen hanfodol o'r system sgiliau yng Nghymru. Rydym wrthi'n adeiladu system sgiliau a fydd yn fwy cydnaws ag anghenion yr economi fel y gall Cymru gystadlu ar lefel fyd-eang. Ein strategaeth yw buddsoddi mewn sgiliau sy'n sicrhau enillion economaidd a chymdeithasol – gan fuddsoddi mewn galwedigaethau a sectorau twf i fynd i'r afael â diffygion a bylchau o ran sgiliau sy'n llesteirio cynhyrchiant a thwf. Mae gradd-brentisiaethau eisoes yn cefnogi, ehangu a chryfhau llwybrau gwaith mewn diwydiannau digidol, technolegau gwybodaeth a chyfathrebu, peirianeg a gweithgynhyrchu uwch. Maent yn ffordd o symud ymlaen at addysg uwch a gyrfaoedd sy'n cynnig cyflogau da i grwpiau newydd o ddysgwyr.

Rydym yn dechrau ar gyfnod o newid mawr: bydd Brexit a'r cyfnod o ddod dros y pandemig yn dod â'u heriau a'u cyfleoedd; yng Nghymru, bydd ein mesurau i ddiwygio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn cynyddu mewn momentwm; a chynhelir etholiadau'r Senedd eleni. Mae angen i'n system sgiliau ymateb mewn ffordd hyblyg i'r holl newidiadau hyn. Mae gradd-brentisiaethau gennym ers llai na thair blynedd. Mae llawer i'w ddysgu. Y llynedd, comisiynodd Llywodraeth Cymru werthusiad ffurfiannol annibynnol o'r rhaglen; a chytunwyd ar ei amcan â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Yn ogystal, mae CCAUC wedi comisiynu adolygiad o raglen gradd-brentisiaethau gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch.

Mae Ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau wedi darparu tystiolaeth ac ystod eang o safbwyntiau. Wrth inni symud ymlaen o'r cyfnod peilot, byddwn yn ystyried yr holl dystiolaeth hon wrth benderfynu ar gamau nesaf y rhaglen. Caiff penderfyniadau eu gwneud yn nes ymlaen eleni ar sail tystiolaeth y gwerthusiad, anghenion cyflogwyr a'r economi, y gyllideb a'r blaenoriaethau a ddaw i'r amlwg. Rhoddir y lle canolog i anghenion cyflogwyr.

Mae argymhellion yr adroddiad yn gydnaws iawn â'n cyfeiriad strategol a gweithredol, ac rydym yn hapus i'w derbyn i gyd. Bydd angen i ni a CCAUC ystyried rhai ohonynt ymhellach, a dylid dod o hyd i fwy o dystiolaeth yn y gwerthusiad mewn perthynas â rhai. Rydym yn cefnogi'r bwriad a byddwn yn parhau i weithio gyda CCAUC ac eraill i gyflawni'r amcanion.

**Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu safon fframwaith ar gyfer gradd-brentisiaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r datblygwr nodi: sut mae'r fframwaith yn cwrdd â disgwyliadau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer graddbrentisiaethau; sut y gellir tystiolaethu bod yr oriau hyfforddi yn y gwaith wedi'u gwneud; a'r meini prawf y mae'r datblygwr yn eu gosod ar gyfer cynnwys rhaglen radd yn y fframwaith (i gynnwys y meini prawf hynny sy'n gwahaniaethu'r dyfarniad oddi wrth ddyfarniad rhan-amser).**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r broses o ddatblygu fframwaith yn seiliedig ar drafodaeth rhwng y cyflogwr a'r sector, lle bydd gofyn i'r sawl a gomisiynir i ddatblygu'r fframwaith ymgynghori â rhanddeiliaid (gan gynnwys cyflogwyr, cyrff y sector a darparwyr hyfforddiant). Aethpwyd ati gennym ni a rhanddeiliaid eraill (cyflogwyr a'r sector addysg uwch yn bennaf) i fuddsoddi cryn amser ac adnoddau i ddatblygu'r ddau fframwaith ar gyfer gradd-brentisiaethau. Lluniwyd fersiwn ar ôl fersiwn gofalus i sicrhau bod cymwysterau addysg uwch y fframwaith yn bodloni gofynion ac ethos y rhaglen. Roedd gofyn i'r prifysgolion ddarparu:

- Manyleb o'u rhaglen yn nodi'r strwythur cyffredinol, gan gynnwys y modiwlau craidd a dewisol.
- Gwybodaeth am ddull gweithredu a chyflwyno eu rhaglen megis sail resymegol, dulliau addysgu a dysgu, gan gynnwys dulliau seiliedig ar waith, strategaeth asesu, rolau a chyfrifoldebau, gofynion mynediad a chamau cynnydd. Byddai'r wybodaeth hon yn nodi sut byddai'r brentisiaeth yn cael ei chyflwyno a'i rheoli yn unol â model gradd-brentisiaethau. Câi'r wybodaeth ei hadolygu gan y datblygwr, a phe bai angen, câi dadansoddiad o'r bylchau ei lunio.
- Tabl mapio yn dangos deilliannau modiwlau ac unedau, a'u cyfraniad at y broses o feithrin y sgiliau, yr wybodaeth a'r ymddygiadau a nodir yn y fanyleb ddeilliannau.

Un o'r gofynion sylfaenol yw bod y radd-brentisiaeth yn cynnwys gallu ymarferol a gwybodaeth, ac yn canolbwyntio ar anghenion cyflogwyr.

Ar ôl ystyried canfyddiadau'r gwerthusiad ac adolygiad yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, caiff y prosesau eu diwygio yn ôl yr angen.

**Goblygiadau Ariannol – Dim.**

**Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru alluogi, ariannu a chefnogi strwythurau neu grwpiau mwy ffurfiol er mwyn i randdeiliaid perthnasol a'r diwydiant ddod ynghyd i ddatblygu ac adnewyddu fframweithiau graddbrentisiaethau gan ddefnyddio eu harbenigedd manwl yn yr agweddau galwedigaethol a sector.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Fel yr amlinellir uchod, buddsoddwyd yn sylweddol yn y gwaith o ddatblygu fframweithiau ar gyfer gradd-brentisiaethau i sicrhau bod anghenion cyflogwyr yn cael lle blaenllaw.

Byddwn yn ystyried ein proses gomisiynu ac ymgysylltu yn rheolaidd wrth adolygu a datblygu fframweithiau. Bydd yn bwysig, fel y mae'r Pwyllgor wedi'i nodi, sicrhau bod y lefel iawn o arbenigedd ar gael wrth drafod. Bydd tystiolaeth y gwerthusiad o'r radd-brentisiaeth yn hollbwysig i sicrhau bod ein strwythurau yn addas i'w diben.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Mae yna strwythurau ffurfiol ar waith eisoes ar gyfer cyllido a datblygu fframweithiau.

**Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei dull o benderfynu pa fframweithiau gradd-brentisiaethau i'w datblygu a'u hariannu yn y dyfodol a sut y bydd yn rheoli unrhyw wrthdaro posibl rhwng cydlyniant rhanbarthol, llwybrau cydlynol ar gyfer dysgwyr, a'r galw economaidd.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Bydd ein penderfyniadau ynghylch datblygu fframweithiau a llwybrau gwaith ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar anghenion cyflogwyr a'r economi, canlyniadau'r gwerthusiad, y gyllideb sydd ar gael a'r blaenoriaethau cyffredinol.

Mae creu llwybrau cydlynol ar gyfer dysgwyr yn ystyriaeth bwysig, ac rydym yn cydnabod yr angen i gryfhau llwybrau a darpariaeth ar Lefel 4 a 5. Yn ei adolygiad o brentisiaethau uwch<sup>1</sup>, mae Estyn yn argymhell gwell system o baru'r ddarpariaeth â'r galw ymhlith cyflogwyr ac anghenion yr economi ar y lefelau hyn.

Ar hyn o bryd, mae CCAUC yn rhoi sylw i gydlyniant rhanbarthol wrth gymeradwyo darpariaeth. Mae gofyn i ddarparwyr roi tystiolaeth o'r galw ymhlith cyflogwyr am unrhyw ddarpariaeth sydd efallai y tu allan i'r rhanbarth, a dim ond eithriadau a gymeradwyir.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyffredol.

---

<sup>1</sup> Prentisiaethau Uwch mewn Dysgu yn y Gwaith (2018) <https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Higher%2520apprenticeships%2520in%2520work-based%2520learning%2520-%2520cy.pdf>

**Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru, trwy Fwrdd Cyngori Prentisiaethau Cymru, ystyried ehangu'r ystod o radd-brentisiaethau sydd ar gael, gan gynnwys cefnogi, ariannu a galluogi datblygiad fframweithiau gradd-brentisiaethau nad ydynt yn cael eu darparu gyda chyllid cyhoeddus, lle mae cyflogwyr yn awyddus i weld hyn yn digwydd.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Fel yr amlinellir yn yr ymateb i'r argymhelliad uchod, bydd ein penderfyniadau ynghylch datblygu fframweithiau a llwybrau gwaith ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar anghenion cyflogwyr a'r economi, canlyniadau'r gwerthusiad, y gyllideb sydd ar gael a'r blaenoriaethau cyffredinol.

Ar hyn o bryd, gall cyflogwyr hunangyllido'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno prentisiaethau. Gan ddefnyddio tystiolaeth y gwerthusiad, byddwn yn ystyried yn ofalus p'un a yw rhoi rôl i bartneriaethau a gefnogir â chyllid cyhoeddus yn y broses o benderfynu beth mae cyflogwyr yn dewis ei ariannu eu hunain yn rhywbeth ymarferol a manteisiol.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn gwireddu ei hymrwymiad gwreiddiol i roi £20 miliwn i'r cynllun peilot gradd-brentisiaethau dros 3 blynedd; nodi a fydd yn rhoi cyllid ychwanegol i CCAUC i wneud iawn am y £5 miliwn y mae'r Cyngor wedi gorfod ei dynnu oddi wrth flaenoriaethau eraill yn y flwyddyn academaidd hon; nodi a fydd angen i'r cyllid ar gyfer y graddbrentisiaid sy'n parhau ddod o gymorth grant cyffredinol CCAUC; a nodi ei chynlluniau a'i hamserlenni ar gyfer cytuno ar yr ymrwymiad cyllid ar gyfer myfyrwyr newydd sy'n cofrestru ar radd-brentisiaethau yn y dyfodol.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn amlinellu ei chynlluniau mwn llythyr cylch gwaith at CCAUC ar yr adeg briodol.

**Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru gyfiawnhau cadw dau fodel cyllido gwahanol, a rhoi rhesymau dros barhau â'r model caffael ar gyfer dyfarnu contractau i ddarparwyr prentisiaethau; nodi sut mae hyn yn gydnaws â chael llwybrau dysgu cydlynol o Lefel 2 i Lefel 6 a sut y bydd caffael y ddarpariaeth brentisiaethau newydd yn mynd i'r afael â hyn; a rhoi sicrwydd bod y dull contractiol yn ddibynadwy ac yn effeithiol, gan gynnwys bod gwersi wedi'u dysgu o ddod â phroses gaffael Cymorth Swyddi Cymru i ben.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r broses gaffael mewn perthynas â phrentisiaethau (ac eithrio gradd-brentisiaethau) o 1 Awst 2021 yn broses fyw, ac ni ddisgwylir iddi gael ei chwblhau nes Mawrth 2021. Cyn pob cylch caffael, mae swyddogion yn ystyried ynghyd â'r Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Gwasanaethau Caffael Corfforaethol p'un a yw caffael yn briodol, ac yn gweithredu ar sail y cyngor a roddir.

Mae Gwasanaeth Caffael Corfforaethol Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod y gwersi a ddysgwyd yn sgil prosesau caffael blaenorol wedi'u rhoi ar waith mewn perthynas â'r broses gaffael bresennol. Tra bo'r broses yn mynd rhagddi, ni allwn ymateb ymhellach i gwestiynau am gaffael. Fodd bynnag, byddwn yn hapus i rannu gwybodaeth am y gwersi a ddysgwyd unwaith daw'r broses i ben.

**Goblygiadau Ariannol – Dim.**

**Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru roi eglurder i'r Pwyllgor ar gostau gradd-brentisiaethau a phrentisiaethau eraill mewn meysydd pwnc tebyg.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cyhoeddi cyfraddau cyllid. Yn achos prentisiaethau nad ydynt yn rhai gradd, o Awst 2021, rydym yn cyflwyno dull cyllido newydd ar sail rhaglen benodol a 15 band cyllido newydd. Mae hyn yn dilyn adolygiad o'r model cyllido ar gyfer prentisiaethau, a gynhaliwyd rhwng 2017 a 2019. Mae'r gwahoddiad i dendro yn cynnwys manylion y bandiau cyllido newydd ar gyfer fframweithiau prentisiaethau a gynigir ar hyn o bryd, gan gynnwys fframweithiau prentisiaethau uwch mewn TGCh a Pheirianneg. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth am y fethodoleg gyllido unwaith daw'r broses dendro i ben. Mae hyn yn debygol o fod ar ffurf dogfen brisio, a gyhoeddir cyn blwyddyn contract 2021/22. Bydd y ddogfen brisio yn cynnwys

manylion y cyllid a'r fethodoleg daliadau, a gwybodaeth am y broses o bennu cyfraddau cyllido newydd pan gyhoeddir y fframweithiau newydd.

**Goblygiadau Ariannol – Dim.**

**Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a defnyddio model costio sy'n gyson ar gyfer yr holl ddarpariaethau prentisiaeth o brentisiaethau sylfaen i radd-brentisiaethau ac sy'n adlewyrchu amrywiadau yng nghostau cyflwyno ar draws gwahanol lefelau a phynciau.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Fel yr amlinellir yn yr ymateb i'r argymhelliad uchod, yn ddiweddar rydym wedi adolygu ein dull gweithredu a byddwn yn cyhoeddi cyfraddau cyllido newydd ar gyfer y rhannau o'r rhaglen nad ydynt yn ymwneud â gradd-brentisiaethau.

Yn ganolog i radd-brentisiaethau mae cymhwyster addysg uwch sy'n canolbwyntio ar y cyflogwr. Cyllidir gradd-brentisiaethau mewn cydgysylltiad â ffioedd dysgu israddedigion llawnamser<sup>2</sup>. Bydd y gwerthusiad yn ymchwilio i fodolau cost a budd, a byddwn yn rhoi ystyriaeth ddyledus i p'un a yw unrhyw newidiadau yn ymarferol neu'n fanteisiol wrth ystyried canfyddiadau'r adroddiad.

**Goblygiadau Ariannol – Dim.**

**Argymhelliad 9. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu neu gomisiynu strategaeth ar gyfer ehangu mynediad at radd-brentisiaethau ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae rhoi cymorth i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol (mewn addysg uwch, prentisiaethau a galwedigaethau y mae gradd-brentisiaethau yn eu targedu) yn flaenoriaeth.

Mae gan CCAUC brosesau trwyadl ar waith i sicrhau bod ehangu mynediad yn un o themâu canolog y rhaglen gradd-brentisiaethau.

Bydd y gwerthusiad yn asesu perfformiad yn erbyn blaenoriaethau ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau.

**Goblygiadau Ariannol – Ystyrir goblygiadau cyllidebol fel rhan o waith datblygu'r strategaeth.**

**Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd a) yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch sicrhau bod gradd-brentisiaethau yn rhoi ystyriaeth lawn**

<sup>2</sup> [response-to-the-recommendations-from-the-review-of-student-support-and-higher-education-funding-in-wales.pdf \(gov.wales\)](#)

**i'r Gymraeg a dwyieithrwydd, a b) yn casglu data digonol am radd-brentisiaethau a gwblhawyd trwy gyfrwng y Gymraeg.**

**Ymateb: Derbyn**

Blaenoriaeth arall ar gyfer gradd-brentisiaethau yw galluogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae gan CCAUC brosesau trwyadl ar waith i sicrhau bod y rhaglen yn cyflawni'r gofyniad hwn. Bydd y gwerthusiad yn darparu argymhellion ynghylch p'un a yw'r rhaglen yn cyflawni'r amcanion o ran y Gymraeg, ac i ba raddau, ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau.

**Goblygiadau Ariannol** – Ystyrir goblygiadau cyllidebol fel rhan o waith datblygu'r strategaeth.

**Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth ar gyfer hyrwyddo gradd-brentisiaethau sy'n cynnwys allgymorth i athrawon ac ysgolion ar y cyfleoedd a gynigir gan radd-brentisiaethau, a hefyd sicrhau bod y wybodaeth a'r arweiniad o ran gyrfaoedd yn cynnwys gradd-brentisiaethau.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae gradd-brentisiaethau wedi bod yn nodwedd yng ngwaith marchnata a chyfathrebu Llywodraeth Cymru. Unwaith y gwneir penderfyniadau ynghylch eu datblygu ar gyfer y dyfodol, caiff strategaeth farchnata a chyfathrebu ei datblygu.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

**Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno tystysgrif gradd-brentisiaeth, a ddyfernir gan Awdurdod Ardystio Prentisiaethau Cymru, a fyddai'n sicrhau bod y radd-brentisiaeth wedi cwrdd â'r holl ofynion hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith ynghyd â'r gofynion academiaidd. Dylai ategu tystysgrif gradd y sefydliad ei hun.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Byddwn yn ystyried yr argymhelliad hwn yn dilyn y gwaith gwerthuso. Cymhwyster integredig yw'r cymhwyster gradd, ac felly mae'n cynnwys holl elfennau prentisiaeth. Mae yna werth mewn trefniant lle mae Awdurdod Ardystio Prentisiaethau Cymru yn dyfarnu tystysgrif, a chaiff costau a gwerth ychwanegol hyn ei ystyried.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Caiff unrhyw gostau posibl yn sgil ardystio eu hystyried yn nhermau gwerth am arian a budd.